



TGAU – **NEWYDD**

3010NA0-1

LLENYDDIAETH GYMRAEG

UNED 1: Barddoniaeth

HAEN UWCH

DYDD GWENER, 13 IONAWR 2017 – BORE

1 awr 15 munud a'ch amser estynedig

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb pinc 16 tudalen.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn. Dangosir y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

1. **Darllenwch y ddwy gerdd ganlynol yn ofalus. Yn y cerddi, mae'r ddau fardd yn cyfeirio mewn gwahanol ffyrdd at lefydd i fyw.**

CYMHARWCH y ddwy gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG neu'n WAHANOL. Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:

- **cynnwys a neges/themâu y cerddi**
- **sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)**
- **eich ymateb personol i'r cerddi.**

Wrth ateb, cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau. [40]

TAI UNNOS

**Sbwriel oes yr îâ oedd y cerrig llyfnion
orweddaï'n flêr hyd lannau'r afon:**

**sbarion a shafins cŷn a morthwyl y rhewlif
a siapiodd bob dyffryn ganrif wrth ganrif:**

**ac â'r sbwriel cododd ein cyndeidiau'n ddyfal
fwthyn clyd yn nhro'r afon, ar seiliau petryal;**

**gosod carreg ar garreg rhwng gwyll a gwawr,
a chynnau tân cyn i'r landlord dynnu'r cyfan i lawr;**

**hawlio darn o dir a'i godi'n aelwyd,
drwy nerth bôn braich troi llafur yn freuddwyd:**

**ar lannau traffyrdd y dinasoedd llwydion,
ac yng nghesail goncrïd swyddfeydd gweigion,**

**dan bontydd ffyrdd osgoi, mewn meysydd parcio mae rhai
yn eu dyblau heno hefyd wrthi'n codi tai,**

**rhoi trefn ar sbwriel dan y sêr,
hawlio darn o dir â bocsys cardbord blêr.**

IWAN LLWYD

YR HEN FFLAT

Roedd yr haul yn cerdded mewn i'r stafell bob bore
Yn cyrraedd heb gnocio a ni'n ei nabod mor dda,
A'r lleuad yn dod â thusw o sêr i'w ganlyn
I flodeuo'r nos â phetalau gerddi'r ha'.

Pasiais y fflat yma ddoe. Roedd y ffenest yn dywyll
A'i gwydrau'n ddu lle gadawodd y stormydd eu staen;
Roedd y prennau noeth yn pydru, paent wedi cracio
A golwg ar y waliau, y lle wedi colli'i raen.

Pliciodd y croeso oddi ar y drws a phylodd;
Mae rhywrai wedi esgeuluso'r lle ers tro;
Nid yw haul y nos na seren y dydd yno bellach
Ac eto nid yw'r llenni wedi'u cau yn llwyr yn y co'.

MYRDDIN AP DAFYDD**DIWEDD Y PAPUR**